



Enid a Robat: tywyswyr Parêd Gŵyl Dewi – tud 3

tud 4/5

Ysgol Tal-y-bont

tud 7

Portreadau Arvid

tud 11

Coed a chacen

tud 12

Beicio yn y brynau

“Mae sŵn yr ymladd ar ein clyw”



Tal-y-bont ar Wcráin yn un. Llun: Arthur Dafis

Ymatebodd pobl ar draws y byd mewn sioc pan dorrodd y newyddion ar 24 Chwefror am ymosodiad Rwsia ar yr Wcráin. Yn y dyddiau ers hynny, mae'r byd wedi gwyllo y newyddion mewn arswyd ar y gwrthdaro y mae pobl yr Wcráin yn ei ddioddef. Er bod y gwrthdaro hwn filltiroedd bell i ffwrdd, mae ei effaith wedi cyffwrdd â phobl ar draws y byd. Mae ein meddyliau yn anochel gyda phobl yr Wcráin a gyda thrigolion yr ardal a allai fod yn bryderus am deulu a ffrindiau yn y wlad.

Daeth dros hanner cant o drigolion y gymuned leol i wynos ar y Patshyn Glas nos Sul, 27 Chwefror i ddangos cefnogaeth i Wcráin a'i phobl wrth iddynt wynebu erchylltra rhyfel a gormes.

Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng,
A Duw ar drai ar orwel pell;
O'i ôl mae dyn, yn deyrn a gwreng,
Yn codi ei awdurdod hell.

Hedd Wyn



Cefnogaeth a chariad i Wcráin. Llun: Arthur Dafis

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

*Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.*

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gwepllyr (@papurpawb)


Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Non a Gerwyn, gyda Ceri'n dylunio.

Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Ebrill fydd Delyth a Bleddyn (huws.henllan@btinternet.com)

Y dyddiad cau yw 1 Ebrill a bydd y papur ar werth ar 8 Ebrill.



"Mae'r darnau caws wedi mynd dipyn llai ers i bris bwyd godi."

Cronfa Goffa'r Fonesig Grace James

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2022.

Yr ysgrifennydd yw:

Delyth Davies,
Bryn Siriol, Lluest, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3AU
01970 629984
e-bost delythd Davies6@gmail.com

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £9.95 Dau gws £11.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

MAWRTH

- 13 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
- 17 Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 5 Gweddi Hwyrrol
- 20 Bethel 10 Uno â Seion ar
Zoom
Rehoboth 5 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
- 24 Merched y Wawr Tal-y-bont
a'r Cylch 'Heddwch
Nain/Mamgu' (Siân Wyn
Siencyn)
- 27 Bethel 10 Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

EBRILL

- 3 Bethel 10 Uno â Seion ar
Zoom
Rehoboth 5 Gweinidog
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
- 10 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)
Rehoboth 2 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
- 12 Cymdeithas y Chwirydd
Rehoboth Taith Ddirgel
- 14 Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 7 Gweddi Hwyrrol

Cletwr Dydd Mawrth 1-4 'Clonc a Gweu'

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



*Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard*

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Pobl a Phethe

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â'r canlynol sydd wedi colli aelod o'r teulu yn ddiweddar:

Elaine Rowlands, 6
Maes-y-felin, Tal-y-bont, a'i theulu, ar farwolaeth ei mam, Mrs Joan Owen, Aberystwyth, ar 5 Chwefror.

Teulu Mr Paul Standing, Trwyn y Buarth, Tre'r-ddôl, a fu farw ar 18 Chwefror yn 83 mlwydd oed.

Margaret Jenkins, Penbryn, Tal-y-bont, gynt o Tynygraig, a'i theulu ar farwolaeth ei hewythr Dai Jones, Llanilar yn 78 mlwydd oed.

Teulu Mrs Heulwen James, gweddwr Mr Mansel James, cyn-brifathro Ysgol Llangynfelyn, a fu farw yn yr Alban ar 23 Chwefror.

Eleri Edwards, 15 Birkenhead Street, Tal-y-bont, a'i theulu, ar farwolaeth ei hewythr, Richard Edwards, Tyngwndwn.

Lynwen Morgan, Alltgoch a'i theulu ar farwolaeth ei modryb Tegwen Jones, Lledrod.

Marwolaeth

Bu farw William Jenkins, gynt o Penrhyngerwyn, Tre'r-ddôl yn Ysbyty Bronglais ar 5 Mawrth, llai na bythefnos ar ôl dathlu ei ben-blwydd yn 101 oed. Cydymdeimlwn â'i blant David a Margaret a'r teulu oll.

Pen-blwydd arbennig

Dymunwn ben-blwydd hapus arbennig iawn i Richard Burnham, Salon Leri, Tal-y-bont. Mwynhewch y dathlu!

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Clive Standing ac Anna Kardasz ar enedigaeth mab bach o'r enw Paul Andrew James Standing. Pob dymuniad da i'r teulu.

Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Rhian Jones, merch Reg ac Eurllys Jones, Eurfan, Tal-y-bont yn ei swydd newydd fel Uwch-Reolwr Tîm TAR gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Pob lwc yn dy rôl newydd!

Ffwrnais

Croeso adref i Myra Jones, Penygraig, sydd newydd dreulio ysbaid yn Ysbyty Bronglais. Dymunwn wellhad buan, braf yw cael chi nôl yn eich cartref.

Eglwysfach

Mewn ymateb i ymbil gan Y Groes Goch Brydeinig i godi arian at y newynog yn Affganistan, penderfynodd Janie Agnew, Banc y Llan gynnal bore coffi yn yr Ystafell Haearn, ar fore Sadwrn, 12 Chwefror. Rydym mor ffodus i fyw mewn cymuned glos a gweithgar, ac ynghyd â'i ffrindiau o'r Eglwys, codwyd y swm anrhydeddus o £720 at yr achos teilwng yma. Dywedir fod £4 punt yn medru bwydo deg o blant am wythnos, felly teimlad braf o fedru helpu ychydig o rhai anghenus sydd yn byw yn ein byd.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Dylan a Tina Lewis ar enedigaeth mab bach. Croeso mawr i Idris Celt, brawd bach i Cadi ac Osian. Cyfarchion hefyd i Taid a Nain sef Huw a Susan Lewis, Pantafon, Craig-y-penrhyn, Tre'r-ddôl.

Rhedwyr

Mae criw o redwyr o'r ardal am fentro i redeg ym Marathon Caer ym mis Hydref. Mae Holly Aubrey, Dominic Jenkins, Tom Cosson, Lesley Lewis, Nikki Myring Thomas, Wendy James a Siwan Thomas wedi'u derbyn i gystadlu yn y ras a byddant wrthi'n ymarfer yn galed dros yr haf.

Caru dysgu

Braf oedd gweld Cathryn Lloyd-Williams, Bont-goch, mewn clip fidio yn dwyn y teitl 'Caru Dysgu' ar Gweplyfr yn annog pobl i hyfforddi i fod yn athrawon ysgol. Mae Cathryn yn athrawes cemeg yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth.

Gohirio'r Cysegru

Roedd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn bwriadu cynnal gwasanaeth fore Mawrth 22 Chwefror dan ofal Esgob Tŷ Ddewi i gysegru rhan newydd y fynwent. Ond oherwydd y tywydd gwael bu'n rhaid gohirio'r seremoni. Cafwyd neges gan gynorthwy-ydd personol yr Esgob Joanna yn datgan ei phryder am y stormydd a phenderfynwyd, er diogelwch pawb, mai doethach fyddai gohirio ac aildrefnu.

Cartref newydd

Croeso Kath ac Ian i Lwyn Adda, Tal-y-bont. Mwynhewch eich cartref newydd.



Tywyswyr Parêd Gŵyl Dewi

Gyda'r haul yn tywynnu'n braf ar brynhawn Sadwrn, 5 Mawrth, gwnaeth Enid a Robat Gruffudd, sefydlwyr Gwasg Y Lolfa, dywys Parêd Gŵyl Dewi drwy strydoedd Aberystwyth gyda thorff gref wedi troi allan i'r orymdaith i ddathlu Dewi Sant, ein traddodiadau a'r Gymraeg ynghyd ag undod gyda phobl Wcraîn.



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Mae wedi bod yn fis prysur iawn yng Nghylch Meithrin Tal-y-bont. Mae'r plantos bach wedi bod yn ymdrin â rhifau, cyfrif a didoli lliwiau o'r stori Y Gryffalo, bwydo'r mwnci, chwarae gyda pharasiwt, ymarfer jabadoa ac ioga!

Roedd yna wledd gweledol o Gymreictod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r plantos bach wedi gwisgo fyny yn smart iawn yn eu gwisg traddodiadol Cymreig.

Estynnwn groeso mawr i Efan ac Alfie i'r Cylch. Gobeithio y cewch chi lawer iawn o hwyl a sbri yn ein plith!





Amaeth ar ei orau!



Hedydd a Siskin



Martha a Swyn yn tynnu llun baner Wcráin



Gweithdy Efaciws



Dydd Gŵyl Dewi



Diwrnod y Llyfr



Athro'r dyfodol?



Cyfarfod rhithiol

Ysgol Tal-y-bont

Codi arian

Daeth nifer go dda o gathod a chŵn, ambell fochyn, ambell fuwch a llawer iawn o ffermwyr brwd i'r ysgol yn ystod mis Chwefror gyda'r nod o gefnogi elusen DPJ. Rydym yn falch iawn o fod yn ysgol wledig gyda chymaint o blant yn dod o gefndir amaethyddol ac roedd hi'n bleser cael cefnogi'r elusen sy'n gofalu am iechyd ffermwyr yn ein cymunedau gwledig. Diolch yn fawr i Mari am y syniad.

Mae plant hŷn yr ysgol wedi bod yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa yn Wcraïn dros yr wythnosau diwethaf ac wedi bod yn trafod y datblygiadau'n gall a synhwyrol. Dyma Martha a Swyn yn tynnu llun baner Wcraïn i ddangos ein bod ni yn Ysgol Tal-y-bont yn meddwl am blant a theuluoedd y wlad.

E-ddiogelwch

Mae cadw pawb yn ddiogel wrth ddefnyddio'r holl gyfarpar technolegol yn fater pwysig iawn i ni yma yn yr ysgol. Rydym yn manteisio ar y cyfnod yma i atgyfnerthu'r negeseuon pwysig am e-ddiogelwch gyda'r staff a gyda'r plant.

Dydd Gŵyl Dewi

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o blant wedi gwisgo yn eu gwisgoedd traddodiadol a rhai mwy modern yn ystod y dydd er mwyn dathlu dydd gŵyl ein Nawddsant. Diolch o galon i'r staff am drefnu'r holl weithgareddau diddorol. Diolch hefyd i Mrs Jones y gegin am y pice ar y maen blasus iawn.

Diwrnod y Llyfr

Roedd tipyn o fwrwm yn yr ysgol wrth ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni eto. Dymuniad aelodau'r Cyngor Ysgol oedd gwisgo fel cymeriad o lyfr ac fe gafwyd amrywiaeth fawr o wisgoedd diddorol a lliwgar. Mae'n braf i weld fod cymeriadau mewn llyfrau'n parhau i gynnal diddordeb a brwdfrydedd ein plant i ddarllen a mwynhau llyfrau. Cofiwch wario'r talebau a mwynhewch y darllen.

Technoleg Newydd

Gan nad oedd modd croesawu ymwelwyr i'r ysgol yn ystod mis Chwefror, rhaid oedd troi eto at dechnoleg i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau. Dyma Hedydd a Siskin yn cael gweithdy barddoniaeth gyda Hywel Griffiths ac Eirug Salisbury – profiad arbennig i'r ddwy. Dyma lun o rai o blant Blwyddyn 5 yn cynnal cyfarfod gyda Mrs Bethan Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr, i drafod rhai o agweddau pwysig yr ysgol. Diolch i chi blant am fod mor agored ac am gynnal y cyfarfod mor broffesiynol.

Efaciwis

Fel y gwyddoch, mae plant Blwyddyn 5 a 6 wedi dechrau prosiect newydd ar y cyd gyda'r Brifysgol yn Aberystwyth i gasglu hanesion am efaciws yn ardal Tal-y-bont. Mae'r gwaith yn dechrau datblygu a

hoffwn ddiolch i'r rhai sydd wedi cysylltu gyda ni yn barod. Roedd hi'n hyfryd gallu croesawu Kate a Bethan atom i esbonio mwy am y prosiect cymunedol o'r enw 'Lleisiau Pobl mewn Rhyfel Pobl: Aberystwyth 1939-45', sydd wedi'i ariannu gan y Loteri, ac yn cael ei arwain gan yr Adran Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Athro'r dyfodol?

Dyma lun hyfryd o Daniel yn darllen stori i weddill plant y dosbarth. Ac fel y gwelwch, fe lwyddodd i gadw sylw pawb tan y diwedd. Da iawn ti Daniel.

Cysylltiad gwe gwell i'r ardal

Mae cynllun ar droed i gael band eang cyflym iawn i gymunedau cefn gwlad gan gynnwys ein hardaloedd ni yn Ysgubor-y-Coed a Ceulanamaesmawr. Mae'r Llywodraeth yn rhoi cymorthdal i fewn i gynllun fydd yn gwella'r ddarpariaeth ar ffurf talebau - sef un taleb ar gyfer pob tŷ/busnes sy'n cofrestru gyda'r cynllun.

Cwmni *Broadway Broadband* sydd wedi ei ddewis fel y rhai i gyflymu'n cysylltiadau ni a mi fyddan nhw yn dod â band eang i'r ardal os y cawn ni ddigon o bobl yn mynegi diddordeb. Mae *Broadway* yn credu mewn darparu gwasanaeth i ardal wledig, ffermydd a thyddynod a nid dim ond strydoedd, stadau ac ardaloedd poblog.

Mae pob tŷ a busnes yn Ceulanamaesmawr wedi cael llythyr i esbonio'r cynllun. Mae baneri o gwmpas pentref Tal-y-bont ac mae yna wefan a thudalen Facebook penodol felly mae yna ddigon o gyfleoedd i ofyn cwestiynau a chael mwy o wybodaeth.

Beth nesaf?

Unwaith daw digon o enwau i law bydd *Broadway Broadband* yn gallu mynd ati i gynllunio'r rhwydwaith. Mae targed i'w gyrraedd sef bod 157 o dai/busnesau yn cofrestru! A dydyn ni ddim wedi cyrraedd y targed yna eto - mae 90 wedi cofrestru hyd yn hyn felly mae angen casglu mwy o enwau. Gall unrhyw un o fewn yr ardal gofrestru.

Os ydych chi am gael gwell cysylltiad band eang - dyma'ch cyfle chi. Efallai eich bod chi ddigon lwcus ar y funud i fod â chysylltiad cyflym ond o dan y cynllun yma mi fydd yn gynt ac yn rhatach ac yn golygu bod y we yn gweithio'n dda yn yr ardal yn y blynyddoedd i ddod.

Felly eich rôl chi - os oes gyda chi fymryn o ddiddordeb mewn cael gwell cysylltiad, efallai er mwyn i'r plant wneud gwaith ysgol, neu i chi allu prynu a gwerthu dros y we, hwyluso gweithio o adref, unrhyw beth sydd yn well gyda band eang cynt - gallwch gofrestru nawr.

Does dim cost o gwbl i gofrestru a does dim unrhyw ymrwymiad i gymryd y gwasanaeth pan fydd y gwaith yn cychwyn - dim ond mynegi diddordeb fyddwch chi. Mae'n hawdd a mi fydd yn helpu i gael gwell cysylltiadau i'r ardal gyfan.

Gellir e-bostio ceulanband@gmail.com os oes gyda chi unrhyw gwestiwn.

Ian Jones

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK** Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

Yr Urdd yn Gant Oed



Aelodau ifanc yr Aelwyd gyda Harry James, 1977

Aelwyd yr Urdd Tal-y-bont

Dyma'r drydedd erthygl yn y gyfres ar hanes yr Urdd yn yr ardal.

Wrth wneud ein cartref cyntaf go-iawn ym Mhennaber, Tal-y-bont ddechrau 1976, roedd Medi a fi angen rhywbeth amgenach i wneud nag ailwampio'r hen dŷ teras.

Roeddem wedi bod yn byw mewn fflat yn Aberystwyth cyn symud a finnau wedi cael fy nhynnu mewn i redeg Aelwyd yr Urdd yn Ffordd Llanbadarn gyda Gwen Aaron. Roedd Gwen, ar y pryd, yn dysgu Ffiseg ym Mhenweddig. Ro'n i'n gweithio fel pensaer yn y dref ac ar y pryd doedd gen i ddim cyswllt gyda phlant. Roedd yn brofiad hwyliog cael bod yng nghwmni pobl ifanc yn eu harddegau, rhywbeth d'on i ddim yn gyfarwydd ag e. Byddai Medi'n dweud yn aml mai rhan o fy llwyddiant gyda phobl ifanc ar y pryd oedd nad oeddwn yn athro, a bod y bobl ifanc yn synhwyro hynny. Creu awyrgylch oedd mor bell o'r 'stafell ddoosbarth oedd fy mwriad.

Wrth setlo yn Nhal-y-bont, deuthum i gymysgu â rhai o rieni ifanc y pentre, Enid Gruffudd, Bryngwyn, Wil y glo, Maesyderi, Dai Cem a oedd yn byw drws nesa ond dau i ni a Carol ac Ifan Neuadd Fawr. Dwi'n cofio Enid yn dweud wrtha i mewn sgwrs bod na ddim Aelwyd yn Nhal-y-bont a gosod her i mi. Dyma gychwyn ar yr Aelwyd a chynnal cyfarfodydd wythnosol yn y Neuadd Goffa. Daeth trawsdoriad da o bobl ifanc oedran Ysgol Uwchradd o'r pentre, o Faesyderi ac o'r ffermydd cyfagos.

Cawsom sylw'r wasg genedlaethol yn Ionawr 1977 ar ôl i griw'r Aelwyd gynnal arolwg barn, ar gais *Papur Pawb*. Roedd y BBC newydd ad-drefnu darllediadau a'i gosod ar VHF. Aethom i chwilio am farn y gymdogaeth a'u harferion gwranddo ar Radio Cymru. Bu Ceri Jones, Anna a Rachel Prytherch, Mair a Gwen Jenkins, Louise Morgan, Linda Morris a Kay Evans yn curo ar ddrysau'r tai gyda'r holiadur. Fe welir y canlyniadau ym *Mhapur Pawb* Ionawr 1977 ac yn *Y Cymro* ddiwedd Ionawr. Roedd y cartŵn ar waelod yr erthygl yn *Papur Pawb* yn werth ei weld hefyd!

Ymestyn allan at aelwydydd eraill a chael hwyl tu allan oedd un o brif nodweddion yr Aelwyd. Wrth aros o fewn y Neuadd buodd na ychydig o stŵr gan bwyllgor y neuadd am gicio pêl-droed yn rhy uchel yn y Neuadd ond roedd cael neuadd mor eang yn wych. Cymerwyd rhan yn y Carnifalwn yn Felin Fach, codi arian trwy gynnal Heic ar Feic am

11 milltir, teithiau mynych i Langrannog a'r Siandifang cenedlaethol gwirion oedd yr uchafbwyntiau. Â'r criw ifanc wrth eu bodd yn gweld ni'r oedolion, John Roberts, Jane Reynolds, Rob Bontgoch a Medi yn wlyb at ein croen yn y gemau dŵr yn Llanellwedd a Glanllyn. Roedd y Neuadd Goffa yn benthyg ei hun i gymaint o weithgareddau amrywiol: cwis, partis Dolig a Charnifalwns. Un noson ddigri iawn sy'n dod i'r cof yw Carnifalwn rhwng Aelwydydd Trefeurig, Rhydypennau, Penrhyn-coch a ni. Pwy sy'n cofio Nigel Ebenezer a'i ddisgo, Disco Eber, a mewn sgets wedi ei wisgo mewn clwt babi. Chwith iawn yw meddwl bod Nigel wedi marw'n rhy ifanc. Cymeriad mawr ers yn ifanc.

Mae'r Urdd wedi, ac yn, cynnig profiadau blaengar i'n pobl ifanc mewn sawl maes erbyn hyn. Doedd Aelwyd Tal-y-bont ddim ofn cystadlu chwaith a gyda dau hyfforddwr fel Margaret a Geraint Thomas bu dysgu cyd-adrodd a chanu cerdd dant yn brofiad newydd i nifer o'r aelodau.

Da gweld bod Yr Urdd, wrth ddathlu'r canmlwyddiant, yn llwyddo mewn gymaint o wahanol feysydd ac wedi rhoi cyfleoedd i'n plant a'n pobl ifanc i fynd â'r Gymraeg dros y byd, i feysydd adloniant proffesiynol, chwaraeon, busnes, a chynnal gweithluoedd trwy brentisiaethau yn ogystal â pharhau i Gymreigio ein broydd.

Harry James



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Portreadau Arvid



Deugain mlynedd yn ôl, roedd Papur Pawb yn cynnwys cyfres o erthyglau yn dwyn y teitl 'Diwrnod o Waith'. Byddai unigolion o'r ardal yn adrodd am eu profiadau yn ystod eu diwrnod gwaith a byddai Arvid yn tynnu ffotograff ohonynt. Yn Rhagfyr 1982, cafwyd hanes y postman, Alun Evans, 'Alun y Post', Maesyderi, a dyma ddarn difyr o'r erthygl.

'Bydd y cloc larwm yn canu bob bore cyn chwech, a hynny yn rhoi amser i wisgo a chael brecwast cyn gadael mewn pryd i gyrraedd y Swyddfa Bost yn Aberystwyth erbyn saith...Ar ôl parcio'r car bydd tua hanner cant o bostmynt yn barod am waith y dydd. Bydd y fan mêl wedi cyrraedd a rhan fwyaf o'i llwyth, o Gaerfyrddin, a daw'r gweddill ar y trên cyntaf o Amwythig. Dewch i gael golwg ar weithgarwch y bore pan fo'r mwyafrif ohonoch yn cysgu'n braf.

Dyma ni mewn ystafell fawr tua hanner maint y Neuadd Goffa. Mae tua wyth cant o barseli a thros deuddeg mil o lythyron yn ein cyrraedd bob dydd. Gwelir pawb wrthi fel morgrug yn cael y cyfan i drefn, yna cyn cychwyn eu dosbarthu o ddy i ddy rhaid darllen pob cyfeiriad yn ofalus rhag bod enw rhyw gartref yn Nhal-y-bont yn mynd i gartref o'r un enw yn Llanfarian...mae pob postman yn gyfrifol am bedair cylchdaith – y rhai sy gen i yw dwy daith yn Nhal-y-bont, Cylch Llandre, ac un daith gerdded yn y dre, gan newid pob wythnos...

Fe ddechreuais fel postman 32 mlynedd yn ôl, a dim ond tri ohonom yn cyfarfod yn Nhal-y-bont, y diweddar David Thomas Morgan, fy nhad [Caledfryn Evans], a minnau. Wrth gwrs roedd bywyd yn y dyddiau hynny yn fwy hamddenol a'r beic coch oedd y ffrind a gariai'i lwyth i bob tŷ yn y pentre, cymoedd Pen-sarn, a Cheulan, hyd Blas-y-mynydd; a byddai'r Daily Mail, owns o faco, a photelaid o ffigis ar y beic bob dydd i'r Plas. Gan fod y ffordd yno yn arw ac anwastad byddai'r cerrig miniog yn brathu'r teiar, a byddai trwsio olwyn fflat ar ganol y daith yn brofiad digon aml. Wedi'i nhad ymddeol cefais ei le i gario'r post i fyny Cwm Eleri, Bont-goch, hyd Lawrcwm-bach...

Cofiaf alw un bore yn Rhydyronnen. Roedd Lewis Jones yn bachu'r mowlder wrth y tractor bach, a'i gyfarchiad cyntaf oedd "Dreifa'r tractor 'ma, fe gydia inne yn y mowlder i ni gael agor rhes neu ddwy o datws."

Dro arall rwy'n cofio car mawr Americanaidd wedi sefyll gyferbyn â Blaenceulan, 'roedd wyneb y gyrrwr fel y galchen, ac ef a'i gyd-deithwyr wedi cael dychryn mwya'i bywyd pan welsant y dibyn oddi tanynt hyd Fwlch-y-Garreg. Gan nad oedd gennyf y syniad lleiaf sut i yrru car yr adeg honno, a'r gyrrwr yn crynu gormod i fentro fodfedd yn ôl na blaen, bu'n rhaid iddynt aros nes y deuthum yn ôl o Blas y Mynydd, yna galw yn Davmor Garage a mynd gyda Defi Preis i'w gwaredu, ac ni fu neb erioed yn fwy balch o gyrraedd Tal-y-bont na'r gyrrwr hwnnw o'r America.

...Cofiaf un flwyddyn a'r eira yn drwchus yr adeg honno, minnau yn gorfod gadael fy meic y tu draw i Bont-goch a cherdded yn ddigon trafferthus i Lawrcwm-bach. Yno o flaen y tân roedd Geraint mewn poenau mawr, brasco'n ôl drwy'r eira i Lety-Ifan-Hen, y ffôn yno ddim yn gweithio ar ôl y storm; yna [mewn tŷ arall] ffonio Dr Cynwy Davies, egluro'r sefyllfa, - arwyddion pendics!! Ffonio eto i Defi Preis, a'r tri ohonom yn cychwyn o Dal-y-bont yn y bws bychan oedd gan y garage. Gadael y bws y tu draw i Bont-goch – cerdded i Lawrcwm-bach a llusgo Geraint druan at y bws a'i hebrwng cyn gynted ag oedd bosib am ei driniaeth i'r ysbyty.

Oes, mae digon o atgofion gan bob postman, a phe cawn fy hun 32 mlynedd yn iau a chael dewis gyrfa o'r newydd, fe ddewiswn wthio'r beic bach coch am Blasymynydd a mynyddoedd Elerch, pe ond i gael cyfarfod ac adnabod hen bobl oedd yn gymeriadau.'

Colofn Elin

Dwi'n siwr ein bod ni gyd yn falch o groesawu'r lleihad sydd wedi bod ar nifer o'r cyfyngiadau Covid, a diolch i chi oll am eich ymdrechion i gadw at y cyfyngiadau er mwyn helpu'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, ac hefyd i amddiffyn y bregus yn ein cymdeithas.

Ar drothwy'r Gwanwyn, un mater sy'n poeni nifer yw'r newid bydd i system ffonau y wlad wrth i BT ddiffodd y llinellau ffôn copr traddodiadol yn gyfangwbl yn 2025, a newid i'r system newydd 'Digital Voice'. Mae nifer o gymunedau yng Ngheredigion sydd heb signal ffôn symudol yn enwedig, yn poeni am sefyllfaoedd ble byddant yn colli trydan, yn enwedig yn ystod misoedd y Gaeaf, fyddai'n golygu fyddant heb Wif i fedru gwneud galwadau ar linell ffôn y tŷ. Dywedir BT bod ganddynt opsiynau gallant drafod gyda phobl sydd heb gysylltiad ffôn symudol, er mwyn ceisio osgoi'r sefyllfaoedd yma, er dim ond am tua awr byddai'r batris ychwanegol yma'n para. Felly, bu i Ben Lake AS a minnau godi'r mater gydag Ofcom, ac mewn ymateb ganddynt dwedwyd wrthom bod adolygiad o'r niwed a'r trafferthion bu i'r rhwydwaith ffôn a thrydan yn dilyn storm Arwen ar hyn o bryd ar waith. Byddant yn ystyried y system ffonau newydd, a'r goblygiadau pan byddant yn dadansoddi'r adolygiad. Byddwn yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa yma.

Mae sawl cymuned yn y Canolbarth wedi gweld cynnydd yn y niferoedd o gwmnïoedd mawr sy'n ceisio prynu tir yng Nghymru i'w goedwigo er mwyn ceisio lleihau lefelau carbon. Mae'r Blaid wedi codi'r mater yma yn y Senedd, gan ei fod yn cael effaith ar ein cymunedau a'n economi leol, yn enwedig ar ein gallu i gynhyrchu bwyd, gan bod nifer o'r safleoedd sydd wedi eu prynu ar dir amaethyddol da, gan gwmnïoedd o'r tu allan i Gymru. Mae trafodaethau'n parhau, gyda Plaid Cymru'n gofyn i'r Llywodraeth ystyried creu fframwaith gynllunio addas byddai'n gwarchod perchnogaeth ein tir.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r Urdd eleni wrth iddi ddathlu 100 mlynedd. Mae nifer fawr ohonom ag atgofion melys o gystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd yn ein hamser yn yr ysgol, ac atgofion bythgofiadwy o aros yn wersylloedd yr Urdd. Fel rhan o'r dathliadau mi wnes i gymryd y cyfle i ganu 'Hei Mr Urdd' yng nghyfarfod o'r Senedd, a diolch i holl blant ac oedolion dwl Ceredigion am wneud hynny hefyd a helpu'r Urdd i dorri record byd am y nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu yr r'un gân ar Twitter – 250 oedd y record, ond postiwyd 1,176 gan ffrindiau'r Urdd.

Pleser o'r mwyafrif oedd cael mwynhau cynnyrch ffres a lleol blasus iawn ym mrecwast yr FUW yn Felinfach yn ddiweddar. Dylen ni gyd fod yn browd iawn o'n cynhyrchwyr bwyd lleol sy'n gweithio mor galed i ddarparu cynnyrch o safon uchel iawn. Diolch i chi gyd.



Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 8 Chwefror, ac estynnwyd croeso i'r siaradwr gwadd, Gwyn Jenkins, Tal-y-bont. Testun ei sgwrs oedd 'Papur Pawb a phapurau bro eraill'. Wrth sôn am *Bapur Pawb*, dywedodd mai Gwilym Huws a Robat Gruffudd oedd yr arloeswyr a gafodd y weledigaeth o gychwyn papur bro yn yr ardal yn 1974. *Papur Pawb* oedd papur bro cyntaf Cymru, ac ymhen amser dechreuodd ardaloedd eraill gyhoeddi papurau bro eu hunain, ac erbyn hyn cyhoeddir dros drigain ohonynt dros Gymru gyfan. Eglurodd Gwyn gymaint mae pethau wedi newid wrth argraffu'r papur ers y cychwyn cyntaf – proses lafur a gymerai lawer o amser oedd gosod y papur yn y dyddiau cynnar, ond erbyn hyn mae pethau yn haws gan fod y deunydd a'r lluniau oddi wrth y gohebwyd yn cael eu trosglwyddo dros y we i'r golygydd a'r dylunydd.



Mae'n debyg mai O. M. Edwards gafodd yr ysbrydoliaeth i gyhoeddi papur bro yn y lle cyntaf, gan iddo gyhoeddi *Seren y Mynydd* yn ardal Penllyn yn 1895. Hefyd cyhoeddwyd *Lloffion Llangynfelyn* ym mhlwyf Llangynfelyn gan Mr Huw Evans rhwng 1956 a 1958 – a'r ddau bapur yna yn cynnwys yr un math o ddeunydd a newyddion a ymddengys ym *Mhapur Pawb* yn awr. Er mai bywyd gweddol fyr a gafodd y ddau bapur yna, mae *Papur Pawb* wedi bodoli ers 47 o flynyddoedd, a gobeithir y bydd y genhedlaeth iau yn gweld gwerth yn y papur ac yn parhau gyda'r gwaith pwysig mae'n ei gyflawni i'r gymuned leol.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Croesawyd Glan Davies, Rhydyfelin, i'r cyfarfod ar nos Iau, 17 Chwefror. Er mai syrfeiwyr gyda chwmnïau adeiladu oedd Glan wrth ei waith bob dydd, bu hefyd yn wyneb adnabyddus fel cyflwynydd ac actor ar nifer fawr o raglenni teledu dros y blynyddoedd. Yn ystod y noson bu'n rhannu ei atgofion am ei ddyddiau cynnar ym Mrynaman pan fu'n cymryd rhan yn eisteddfod flynyddol y capel, yn ogystal â chael llwyddiant yn Eisteddfodau'r Urdd, a hyn wnaeth ennyn ei ddiddordeb mewn actio. Ei waith fel syrfeiwyr a wnaeth iddo ymgartrefu yn Aberystwyth, a dros y blynyddoedd dilynol bu'n weithgar iawn yn yr ardal yn codi arian i nifer o elusennau gan gynnwys Clwb Rygbi Aberystwyth, Plant Mewn Angen, Sefydliad y Galon a Calonnau Cymru. Iddo ef mae'r diolch fod gennym ddiffibrilwyr ym mhentrefi'r ardal. Cyhoeddwyd ei hunangofiant o'r enw *O'r Aman i'r Ystyth* rai misoedd yn ôl, ac ynddi mae'n ein hannog i wneud un peth da bob dydd ac mae hynny'n gyngor gwerth i'w gofio. Ar ôl cyflwyno gair o ddiolch i Glan mwynhawyd paned o de a bisgedi, ac roedd y noson yng ngofal Ann Humphreys a Carys Briddon.

Cyfarfod Blynyddol Neuadd Goffa Tal-y-Bont

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Neuadd Goffa nos Fercher 9 Chwefror gyda Janet Jones yn y gadair. Bu'n rhaid gohirio cyfarfod 2021 oherwydd Covid ac yn ystod y dwy flynedd ers y Cyfarfod Blynyddol diwethaf a bu effeithiau Covid i'w gweld yn glir ar weithgareddau'r Neuadd. Siom oedd gweld neb heblaw aelodau presennol y Pwyllgor yn bresennol yn y cyfarfod a gwnaethpwyd apêl o'r newydd ar aelodau'r gymuned i ymuno â'r Pwyllgor er mwyn cynorthwyo i redeg a chynnal un a adnoddau pwysigaf y fro.

Cyfeiriodd y Cadeirydd yn ei hadroddiad at y prinder digwyddiadau ac edrychodd ymlaen at y dydd pan fydd modd ail agor yn llawn unwaith eto. Diolchodd i'r swyddogion am sicrhau fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw yn ystod y cyfnod. Talwyd teyrnged hefyd i Emyr Davies a gollwyd mor sydyn yn ddiweddar a chyfeiriwyd at ei wasanaeth ar Bwyllgor y Neuadd.

Cyflwynwyd adroddiad ariannol gan y Trysorydd, Ieuan Morgan. Er i'r incwm o ddigwyddiadau a llogi'r Neuadd ddiiflannu bron yn llwyr derbyniwyd dau gyfraniad o £10,000 gan Lywodraeth Cymru trwy law Cyngor Sir Ceredigion, sy'n golygu fod modd i'r Pwyllgor fynd ati i fuddsoddi mewn gwelliannau pellach yn ystod y flywyddyn i ddod. Tynnwyd sylw at y costau tanwydd cynyddol sydd wedi dechrau effeithiau ar y gwariant ac o ganlyniad penderfynwyd codi'r costau llogi ychydig, er mwyn sicrhau na fyddem yn rhedeg ar golled.

Ail-etholwyd y canlynol i wasanaethu fel swyddogion ar gyfer y flywyddyn i ddod.

Cadeirydd: Janet Jones

Is-gadeirydd: Dafydd Jenkins

Ysgrifennydd: Phil Davies

Trysorydd: Ieuan Morgan

Trysorydd Codi Arian: David Nutting

Atgoffwyd yr aelodau y byddai'r Neuadd yn dathlu ei chanmlwyddiant cyn pen dim gan i'r cerrig sylfaen gael eu gosod yn 1923, ac i'r Neuadd agor yn swyddogol yn 1924. Penderfynwyd gwahodd unigolion i wasanaethu ar is-bwyllgor i fynd ati i drefnu dathliad teilwng i nodi'r achlysur. Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gyhoeddi llyfryn o'r newydd, megis yr un â gyhoeddwyd yn 1974 a threfnu arddangosfa yn ogystal â chynnal digwyddiad os oedd amgylchiadau yn caniatáu.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli misol a ddilynodd y Cyfarfod Blynyddol trafodwyd dau gynllun sydd ar y gweill i wella'r adeilad, sef yr angen i harddu'r Neuadd Waelod gan gynnwys gosod llawr newydd, a'r penderfyniad i newid llawer o'r ffenestri presennol. Bydd y ddau fuddsoddiad yn sicrhau bod cyflwr yr adeilad yn cael ei wella a'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol. Diolchwyd i Catrin M.S. Davies am ei holl waith yn paratoi argymhellid ar gyfer y Neuadd Waelod.

Adroddwyd hefyd ein bod wedi derbyn 100 o gadeiriau at ddefnydd y Neuadd trwy law Ysgol y Gader, Dolgellau. Diolchwyd i Steffan Nutting am wneud y trefniadau ac i Dafydd Jenkins a Dei Nutting am eu cludo.

Gwahoddir unrhyw un sy'n awyddus i ymuno â'r Pwyllgor Rheoli i gysylltu â'r ysgrifennydd, Phil Davies: gwynionydd@btinternet .com

Doniol

Roedd Wil ac Ifan mewn gwrth o oedran ond byddent yn parhau i drafod eu hoff ddileit sef rygbi.

Meddai Wil un diwrnod: "Ifan, pan wyt ti'n marw a wnei di geisio anfon neges ataf i gadarnhau bod modd chwarae rygbi yn y nefoedd?"

"Fe dria i fy ngore" atebodd Ifan.

Yn y man fe fuodd Ifan farw, a rhai diwrnodau'n ddiweddarach fe ddeffrodd Wil ganol nos a chlywed llais Ifan yn dweud wrtho: "Wil, Ifan sydd 'ma. Dwi yn y nefoedd. Wyt ti eisiau'r newyddion da yn gyntaf neu'r newyddion drwg?"

"Y newyddion da." meddai Wil.

Atebodd Ifan: "Y newyddion da yw ein bod ni gyd yn chwarae rygbi yma... ond y newyddion drwg yw dy fod wedi dy ddewis i chwarae i'n tîm ni ddydd Sadwrn nesaf!"



*Karen a James ar Ddydd Gŵyl Dewi.
Mae James yn dysgu am ddiwylliant Cymreig yn gyflym iawn!*

Cletwr

Mae'r Gwanwyn wedi cyrraedd! Wel, efallai...ar hyn o bryd mae barrug tu allan ac mae'n rhewi yn fy swyddfa! Ond ar yr un pryd, mae pobman yn felyn llachar gyda'r genhinen pedr; mae'r adar yn canu ac mae'r wawr yn torri'n gynharach yn y bore. Mae gwaethaf y gofid mawr wedi pasio, gobeithio, a gall pobl ddod i'r golwg ar ôl dwy flynedd tu mewn. Mae'r byd yn ailddeffro. O ie, ac mae wyneb newydd ar yr heol yn Nhaliesin.

Mae Cletwr yn ailddeffro hefyd. Dydyn ni ddim nôl i'r drefn cyn-Covid, ond yn araf deg mae ein gwasanaethau yn ehangu. Dydy brechwastau ddim ar gael (eto), ond cewch fwynhau brechdan brechwast o leiaf (selsig, bacwn, ŵy ayyb). Cefais fy mrechdan bacwn cyntaf ers misoedd ddoe. O, mor flasu! Bydd mwy ar y fwydlen cyn bo hir - gobeithio bydd cwpwl o bobl newydd yn cychwyn yn y gegin cyn bo hir. Ond am y tro, mae mwy o fyrddau tu mewn. Mae cacen, cawl a choffi ar gael, a llawer, llawer mwy. Dewch yn llw.

Mae Rach wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau gyda'r nos hefyd wrth i'r cyfyngiadau ymlacio. Cafodd awdur lleol, Geraint Davies, sesiwn llofnodi ei lyfr newydd yn ddiweddar. Bu sesiwn gerddorol gyda sawl band lleol ar y 4ydd a bydd un arall ar nos Sadwrn 19eg. Gweler Facebook am fanylion pellach. Diolch i gynllun Noson Allan am y gefnogaeth i'r gigiau. Mae'r Oriol ar agor gydag arddangosfeydd o waith celf hyfryd gan Jenny Fell a Ruth Packham ar hyn o bryd. Mae llawer o ddigwyddiadau yn y dyddiadur eisoes a mwy i ddod, e.e. bydd gweithdy ffeltio tua diwedd mis Ebrill. Mae Sylvie yn dal i redeg sesiynau Dal Ati bob yn ail fore Sadwrn. Croeso cynnes i bawb. A pheidwch anghofio am Lyfrgell Cymraeg Cletwr – gallwch fenthyca o ddewis da o lyfrau am ddim.

A oes gyda chi syniad am ddigwyddiad yng Nghletwr gyda'r nos? Neu yn ystod y dydd? Cyngerdd? Lawnsiad Llyfr? Sgwrs? Cwrs? Cysylltwch â Rach i drafod: events@cletwr.com

Ond mae gennym un broblem fach. Mae angen pobl i gadw trefn ar ddigwyddiadau (na, nid bownsars, jyst bobl i agor/cau'r drysau ayyb.) Ar ôl diwrnod hir, yn naturiol does dim awydd gan y staff aros am dair awr ychwanegol. Felly rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i weithio fel gofalwr/wraig ar gyfer sesiynau gyda'r nos o bryd i'w gilydd. Cysylltwch â'r swyddfa os ydych chi'n gallu helpu.

Dyna ddigon am y mis 'ma. Gobeithio y gwelwn ni chi yn y siop, y caffi neu ar gyfer digwyddiad yn rheolaidd dros y mis nesaf.

O.N. Bydd y siop yn hybu cynhyrchwyr lleol yn y dyfodol agos, yn arbennig ein ffermwyr cig – porc o Ynys Las, cig oen o Moelgolomen, a mwy.

Nigel Callaghan

Worldwide Welshman
Mae Liam a'i fand yn berfformio caneuon ddoniol, drist, dyrchafol a ddawnsiadwy mewn sawl iaeth.

Tead Moon + Misha & The Kings
19.03.2022
19.30 - 22.00 @Tocyn: £7/£20/12 Teuluoedd
01970 832 113 ✉ events@cletwr.com
Cletwr

Teyrnged

David William Evans, Ruel Isaf

Bu farw Dei Ruel, Ruel Isaf, Bow Street, ar 5ed Ionawr 2022 yn 90 mlwydd oed. Mab annwyl oedd i'r englynwr y diweddar William Robert Evans ac Annie Mabel, brawd hoffus Betty, Gerallt a Margaret ac erbyn hyn mae Betty wedi ein gadael hefyd, a'i diweddar frodyr a chwiorydd, ac ewythr parchus nifer mawr o neiaint a nithoedd.

Bugail oedd Dei wrth natur a threuliodd ei oes adref yn ffermio, a bugeilio yn achlysurol ar fynydd y teulu yn Bwlchglas a Nantperfedd, Tal-y-bont. O esgyn i'r llechweddau wrth gefn y cartref gallai'r teulu weld os oedd niwl neu eira ar fynydd y lluestai hyn, cyn penderfynu ar y cam nesaf. Treuliodd flynyddoedd maith ar ben ei hun yn y Ruel wedi marw y teulu, a gwasgaru eraill o'i frodyr a'i chwiorydd i'w gwahanol gartrefi. Pleser gan Dei bob amser oedd cael mwynhau cwmni ei neiaint a'i nithoedd.

Gŵr bodlon ar ei fyd ydoedd, swil ond parod ei sgwrs. Siaradai Gymraeg pur dilediaith yn llawn idiomau rhywiog yr iaith, fel eraill o'i deulu. Mewn ymgom gydag ambell gyfaill, nid syndod oedd clywed pennill o farddoniaeth neu linell o gynghanedd, dylanwad yr aelwyd ddiwylliedig yn parhau.

Cafodd modd i fyw pan wersyllodd y criw teledu yn ffilmio *Y Gwyll* o flaen y tŷ am gyfnod. Tebyg iddynt hwythau gael profiad a dysgu rhywbeth am fywyd oedd yn ddiethr iddynt!

Byddai yn wyna allan, peth anghyffredin y dyddiau hyn, gyda siediau mawrion yn feithrinfa defaid i wyna. Ond pleser oedd gweld ei ŵyn cryfion iach yn gynnar pob gwanwyn. Nid rhyfedd gan bod Ruel Isaf yn wyneb haul, a'r cefn at wynt a glaw Môr yr Iwerydd. Gellid dweud ei fod wedi parhau ffermio yn yr hen ddull, ond nid oedd gwaeth am hynny.

Yn y blynyddoedd diwethaf, o edrych dros y dyffryn o Bow Street, gwelwyd ef yn cwad-fugeilio y llechweddau a'r caeau, fel prfyn ar ffenestr. A cyn i'w olwg ballu, gwelwyd ef ar dractor mawr, yn ofalus yrru lawr i siopa yn y pentref.

Claddwyd Dei yn meddrod y teulu ym Mynwent Tal-y-bont.

VJ

Y Gair Olaf



Pan oeddwn i'n hogan fach, mi oeddwn i'n ffodus iawn – roedd gen i bedair nain. Dwy hen nain a dwy nain.

Nain 'Stiniog oedd un hen nain – nain fy nhad. Yn 1912 fe hwyliodd hi a'i theulu ifanc i 'Merica i ddechrau bywyd newydd. Fuon nhw ddim yno yn hir – doedd nain 'Stiniog ddim yn hoff iawn o'r lle.

Nain West View – enw ei chartref, nain mam, oedd y llall. Fe fagodd hi ddeuddeg o blant ond yn anffodus, fe gladdodd bump ohonynt hefyd. Roedd Nain West View yn rhoi *polo mint* i mi bob tro pan oeddwn yn mynd i'w gweld.

Mi gefais lawer o hwyl efo fy nwy nain. Roedd y ddwy yn wahanol. Roedd Nain Ffôr wedi bod yn gweini ym Manceinion efo'i chwaer mewn tŷ mawr crand. Ond, cafodd y ddwy eu hatal rhag siarad Cymraeg efo'i gilydd.

Gweithio mewn siop oedd hanes Nain Port - canu cerdd dant oedd ei diddordeb hi.

Treuliais nifer o oriau yn eu cwmni yn gwrandao ar eu hatgofion fel plant a'r straeon doniol am fy rhieni yn blant. Ychydig o fy atgofion personol sydd yma. Dyma rhai sydd yn amlwg yn y cof, ar hyn o bryd. Fe glywais lawer i stori, ond yn aml mae gweld neu glywed rhywbeth yn deffro'r meddwl yma.

Fel nain fy hun bellach, tybad sut y bydd Anni ac Ifan yn cofio amdana i?

Bethan Davies

Dan Do

Un arall o'r erthyglau achlysurol am dai yn y cylch. Y tro yma tŷ mor newydd pan gyrhaeddodd Papur Pawb y drws dim ond dwy noson roedd y teulu wedi treulio Dan Do yno. Yn ogystal tra bod y tai a fu dan sylw yn y gorffennol gan amlaf o fewn cyrraedd i'n pentrefi rhaid teithio peth pellter i weld hwn.

Pan briododd Enoc Jenkins â Margaret o Ledrod ym 1990 aethon nhw i fyw yn Nhynygraig sy'n edrych lawr ar bentref Tal-y-bont. Hwn oedd eu cartref tan iddynt symud ar Ddydd Gŵyl Dewi i'w cartref newydd Penbryn. Y tro yma syth o'u blaen mae golygfa o Aberdyfi a Phen Llŷn yn y pellter ac i'r dde copa Cader Idris. O'r cefn mae Moel Llyn i'w weld yn blaen. Nid ydynt nawr yn edrych lawr ar bobl fel cynt ond yn edrych draw tua'r gorwelion pell. Gan fod y tŷ yn wynebu tua'r gorllewin, mwy neu lai, cawn fachlud haul syfrdanol am ryw chwe mis o'r flwyddyn ac, er bod neb yn gallu edrych arnynt, mae Margaret yn dweud bydd rhaid cael bleinds ar y ffenestri mawr i gadw haul yr haf allan rhag ofn i'r tŷ fynd rhy boeth.

Dewiswyd yr enw Penbryn gan Enoc gan fod y tŷ wedi ei leoli ar gae o'r un enw ar dir Gwar Cwm Uchaf sydd yn rhan o dir Enoc a Margaret. Mae'r syniad o gael cartref arall wedi bod yng nghefn meddwl y ddau am gyfnod hir gan adael Tynygraig i Dewi, a'i gŵn, dros ddeg ohonynt! Ef fydd y pumed cenhedlaeth o Jenkins yn Nhynygraig. Wedi penderfynu adeiladu cartref newydd bu rhaid cael caniatâd adran gynllunio'r sir a chymerodd rhagor na blwyddyn a hanner i orffen y gwaith. Er bod Margaret ac Enoc, gyda Sara eu merch Dan Do nawr mae llawer o waith eto i'w wneud ar y tu allan. 'Ni fydd gardd', medde Margaret, 'gormod o waith', felly tirlunio syml i gadw bywyd yn hawdd a'r ardal yn daclus.

Wrth fynd drwy'r tŷ mae'n amlwg bod Iwan Jones eu pensaer, a chefnider i Enoc, wedi cynllunio i ffermwyr o'r blaen gan fod nodweddion sy'n addas i waith fferm yn amlwg. Er enghraifft mae'r ystafell gefn, y defnyddfan sy'n dod yn syth o'r iard, ar gyfer Enoc ac yn cynnwys rheiddiadur a throsto cyfarpar i sychu dillad gwlyb. Y tu allan ac o fewn cyrraedd mae tap i olchi esgidiau brwnt cyn mentro mewn i'r ddefnyddfan. Yn yr ystafell hon mae swyddfa fechan, i Margaret yn bennaf.

Mewn rhan arall o Benbryn ceir defnyddfan arall i helpu Margaret ddelio gyda Gwar Cwm Uchaf, eu bwthyn gwyliau dros y ffordd; mae ystafell nid fawr i olchi, sychu a smwddio'r cynfasau pan fo ymwelwyr yn gadael o wythnos i wythnos. Allan o ddiddordeb



Margaret ac Enoc yn eu cegin eang olau.

daw'r dŵr tap o dwll turio sydd yr ochr pellaf ac islaw Gwar Cwm Uchaf. Gwneir defnydd o'r dŵr yma ar gyfer y taenellydd dŵr. Mynna deddf gwlad bod pob tŷ newydd yn cael y system yma sy'n golygu bod tanc mil litr o ddŵr gerllaw gyda phwmp eithriadol o gryf i chwistrellu'n gyflym iawn holl ddŵr y tanc a mygu tân damweiniol Dan Do.

Nid yw'r teulu yn gallu canmol Gwyn Jones, mab y fferm drws nesaf, eu hadeiladwr ddigon. Bu'n rhan o'r cynllun o'r cychwyn cyntaf ac yn gaffaeliad mawr oherwydd pan ddaeth Covid-19, ac o ganlyniad prinder nwyddau o bob math, gwelodd Gwyn y cyfle i archebu'r nwyddau angenrheidiol misoedd ymlaen llaw pan oedd hen ddigon ar gael. 'Adeiladwr first class', medd Enoc amdano a felly hefyd ei farn ar waith Gruffydd Jones a roddodd y gorchudd o gerrig



Wrthi yn gwneud y gwaith tirlunio ym mlaen y tŷ ar ddiwrnod braf o wanwyn.

o Garreg Blue Pennant o Abertawe ar brif ran y tŷ. Plastar fydd ar ran gefn y tŷ tra bod llechi ar y to.

Daw paneli solar yn y man ar y sied/garej sy'n wynebu'r de ond dan y tanllawr mae gwres y llawr ganol gyda'r offer rheoli olew gyferbyn â'r drws. Mae'r gegin, gydag unedau golau, a'r lolfa yn un gyda ffenestri mawr tua'r gorllewin a'r olygfa o'r Ddyfi. Teils golau sydd i'r llawr ond yn yr ystafelloedd gwely, dwy lawr stâr, un ar y prif llawr a'r gweddill lan lofft mae lloriau derw. Bu Margaret ac Enoc yn chwilio ac yn prynu nwyddau'n lleol pan oedd hynny'n bosib. O Gapel Bangor daw'r ffenestri dwbl, ar y cyfan ffenestri go fawr i wneud cymaint bosib o'r golygfeydd hyfryd i bob man ac o Fachynlleth daw'r ddwy stof llosgi pren. I'r gwrthwyneb daw'r Aga o'r plwyf. Mae'n dyddio o 1949 a bu am gyfnod ar fferm Pen-y-wern yn lliw hufen. Aeth i stordŷ tu allan am gyfnod tan achubwyd hi gan Margaret. Roedd wedi cael triniaeth arbenigwr, newidiwyd y lliw i goch tywyll a saif gyda balchder yn y gegin grand yn barod i roi gwasanaeth ffyddlon i'r teulu am flynyddoedd lawer.

Cynlluniwyd y tŷ yn arbennig ar gyfer anghenion Enoc a Margaret a'r dyfodol gyda phob dim wrth law. Fydd hi rai misoedd cyn i bopeth fod yn ei le 'miwn a mâs' ond bydd rhaid cadw un peth mewn cof. Ym Mhenbryn maen nhw'n ymhellach o bobman na'u cyfnod hir yn Nhynygraig ac ar brydiau yn ystod y flwyddyn amaethyddol bydd sawl gât i'w hagog cyn fedru dianc a chymer hynny amser.

Peidied anghofio hynny!

RbH

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn
Cletwr,
Tre'r Ddol

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf,
Talybont

Coed a chacen yn Nhal-y-bont



Mae gan ddwy fferm ger Tal-y-bont naw mil o goed gan *Coed Cadw* i'w plannu. Mae ffermydd Moelgolomen a Llety Llwyd yn trawsnewid i ddulliau ffermio adfywiol. Mae gwirfoddolwyr wedi plannu dros tair mil o goed bob dydd Sadwrn a dydd Llun yn Chwefror ac rydym yn cario ymlaen gyda'r gwaith ym mis Mawrth.

Rydym hefyd wedi bod yn plannu ar safle cwmpo coed ar yr Afon Ceulan gan ddefnyddio coed ifanc a blunwyd gennym ein hunain o hadau neu lasbrennau a gafwyd o erddi pobl. Mae Grŵp Llifogydd Cymunedol Tal-y-bont yn cymryd rhan wedi i'r pentref ddioddef llifogydd dinistriol deng mlynedd yn ôl. Bu bron i ni weld achosion o lifogydd tebyg ers hynny a phroblemau parhaus o ran gorlifadau carthffosiaeth, colli gerddi ac effeithiau eraill o gorlifadau cyflym yn lefelau afonydd. Mae rhagfynegiadau hinsawdd yn dweud wrthym y bydd hyn yn gwaethygu, felly rydym am ddod yn fwy gwydn. Mae coed yn helpu i arafu neu atal llifogydd. Mae gwrychoedd a leiniau cysgodi ar ffermydd yn lleihau crydiad pridd, lleihau lefelau carbon, yn darparu cysgod a maeth, yn cynyddu cynefinoedd bywyd gwyllt ac yn chwarae rhan mewn cylchdroi rheolaeth stoc mewn ffermio adfywiol.

Rydym ni i gyd wrth ein boddau yn dod at ein gilydd i wneud rhywbeth ymarferol am newid hinsawdd. Mae cacen yn rhan bwysig o'n dyddiau plannu coed hefyd!

Rydym yn aros am gyllid gan *Coed Cadw* ar gyfer arolygon hydroleg i helpu i benderfynu lle gall plannu coed helpu i leihau llifogydd. Rydym yn gwneud cais i *Tyfu Dyfi* am arian i greu meithrinfa goed gymunedol fechan er mwyn tyfu dwy fil o goed y flwyddyn.

Os hoffech fwy o wybodaeth neu am ymuno a chymryd rhan yn y plannu, anfonwch neges destun i Linda: 07507464077

Linda Denton

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Chwefror 2022

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar nos Fercher, 23 Chwefror 2022, yn y Neuadd Goffa gyda chwech o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones. Cychwynodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng. Megan Mai, yn ymestyn croeso cynnes i bawb.

Swydd y Clerc

Rhoddodd Cyng. Megan Mai ddiweddariad ar y broses o edrych am Clerc newydd i wasanaethu'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd fod y swydd wedi cael ei hysbysebu unwaith eto mewn nifer o bapurau bro lleol yn yr ardal.

Seddi gwag ar y Cyngor

Cadarnhawyd fod yna dair sedd gwag ar y Cyngor Cymuned erbyn hyn yn dilyn marwolaeth y diweddar Cyng. Emyr Davies. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd gadael y dair sedd yn wag tan fis Mai pan fydd yna gyfle i gynnal etholiad ar gyfer y seddi i gyd ar y Cyngor.

Sefyllfa Coronafeirws

Rhoddodd y Cynghorydd Sir, Cyng. Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar y sefyllfa diweddaraf yng Ngheredigion gyda choronafeirws. Eglurodd fod yna bryder yn ystod y mis am y nifer o achosion yn cynyddu gyda phobl ifanc yn ardal Aberystwyth ond mae'n ymddangos fod nifer yr achosion yn cychwyn gostwng eto erbyn hyn.

Mynwent Tal-y-bont

Eglurodd y Cadeirydd, Cyng. Megan Mai y bu rhaid gohirio seremoni cysegro yr estyniad i'r fynwent oherwydd y tywydd garw diweddar. Cadarnhaodd fod y seremoni wedi cael ei aildrefnu i gymeryd lle ar ddydd Iau, 10fed Mawrth 2022. Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar faterion eraill yn y fynwent.

Gohebiaeth

Cyflwynodd y Clerc lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mr Arthur Dafis ar ran Prifysgol Aberystwyth ynglŷn â chynlluniau ar gyfer fferm Rhydyronnen sydd yn eiddo i'r Brifysgol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu yn ôl i Mr Dafis i egluro fod aelodau'r Cyngor yn gobeithio y bydd Rhydyronnen yn cael ei osod fel uned ffermio draddodiadol i theulu ifanc lleol.

Materion Ariannol

Cyflwynodd y Clerc fantolen ariannol i'r Cynghorwyr a chytunwyd nifer o daliadau ar ran y Cyngor. Trafodwyd hefyd y rhestr cymorthdaliadau am y flwyddyn ariannol presennol a chadarnhawyd cymorthdaliadau i'r Clwb Ffermwyr Ifanc, y Clwb Ieuencid, y Clwb Pêl-droed Ieuencid, y Cylch Meithrin, Sioe Tal-y-bont, Papur Pawb, Ffrindiau Cartref Tregerddan, y Neuadd Goffa, Ysgol Tal-y-bont, y Clwb ar ôl Ysgol, ac yn olaf, Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill. Eglurodd y Cadeirydd, Cyng. Megan Mai, fod angen hysbysfwrdd newydd ar gyfer pentref Bont-goch ar ôl i'r hysbysfwrdd presennol syrthio i'r ffordd yn ystod y tywydd garw diweddar a chadarnhaodd Cyng. Nia Richards ei bod hi wedi cysylltu gyda'r awdurdodau addas ynglŷn â phroblem gyda'r palmant ym mhentref Tal-y-bont. Cadarnhawyd y bydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar nos Iau, 31 Mawrth 2022.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
ceulanamaesmawr@gmx.com / 07904 716 180

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**



STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Tel: 01654 703592
Heol Y Ddail, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

Chwaraeon a Hamdden

Beicio yn y brynau

Yn anochel mae Covid-19 wedi cael effaith ar bron pob agwedd o fywyd a debyg na fydd pethau byth fel fuo nhw. Tra bod y pandemig wedi bod yn erchyll mewn sawl ffordd efallai ei fod wedi rhoi cyfle i ni gyd ail-asesu beth sy'n wir bwysig mewn bywyd sy'n cynnwys pa mor lwcus ydyn ni o'r lle rydyn ni'n byw. Fel mae cân drawiadol Gwyneth Glyn yn ei ddatgan... "*Does unman yn debyg i adra*"!

Gyda'r cyfyngiadau ddaeth yn sgil Covid-19 debyg fod mwy a mwy ohonom wedi bod yn ymgymryd â gweithgareddau awyr agored yn agosach i gartref na fuo ni. Yn bendant mae yna fwy o bobl i weld ambi't'r lle yn cerdded a seiclo. Yn wir, rydym mor ffodus i fyw mewn ardal lle mae gymaint o amrywiaeth o lwybrau cerdded a seiclo gyda ni ar stepen ein drws!

Mae seiclo yn ffordd wych o weld yr ardal ar ei orau. Mae yna fodd mynd am filltiroedd lawer fyny ym mrynau'r ucheldir heb ddod ar draws un enaid byw arall. Mae'n llesol i'r corff a meddwl sydd yn dod fwyfwy amlwg a phwysig yn y byd cyfoes. Nid yw'r profiad byth yr un fath ddwywaith gyda'r tymhorau a'r tywydd yn sicrhau hynny!

Mae yna rwydwaith estynedig sy'n rhoi mynediad a phrofiadau gwahanol i bobl ar ac oddi ar y ffyrdd. Mae'n bosib beicio ar ben eich hunan neu, fel mae nifer yn lleol yn hoffi ei wneud, fesul grŵp. Mae seiclo fel grŵp yn grêt am sawl rheswm – mae'r anogaeth, cefnogaeth a chyfeillgarwch yn ychwanegu gymaint i'r profiad. Mae hefyd yn fwy diogel os oes rhywun yn cael codwm neu anffawd gan gynnwys diodde' gyda phynciart!

Mae modd cyrraedd ac ymuno rhai o drywydd dynodedig Nant yr Arian yn ogystal â rhai *Machs* yn ardal Machynlleth yn uniongyrchol o'r plwy' heb orfod yrru unrhyw le. Mae'r ardal yn datblygu fel un sy'n cael ei gydnabod ar lefel rhyngwladol ar gyfer beicio. Yn wir mae'r teulu Atherton, sy'n adnabyddus ledled y byd gyda 49 pencampwriaeth byd rhyngddynt, wedi datblygu Canolfan Beicio Dyfi yn ogystal â ffatri sy'n adeiladu beiciau ym Machynlleth. Mae'r dulliau technolegol cyfoes o adeiladu'r beiciau, gan gynnwys printio 3D, wir yn rhoi'r ardal ar y map.

Ar y ffordd mae bois lleol gan gynnwys Gruff Lewis, Stevie Williams a Griff Lewis yn cystadlu ar y lefel uchaf posib ac yn falch iawn o chwifio'r faner dros Gymru! Mae eu llwyddiant yn ysbrydoliaeth i eraill ac mae nhw'n arwyr lleol.

Ond, yn ogystal â'r elít, mae beicio yn rhywbeth all bron unrhyw un ei wneud ac mae dyfodiad yr *e-bikes* wedi gwneud byd o wahaniaeth er mwyn annog a galluogi mwy a mwy o bobl i fynd amdani. Mae nifer o gyflogwyr erbyn hyn yn perthyn i fenter ble mae ei cyflogau yn medru prynu beiciau a thalu amdanynt fesul mis dros gyfnod. Mae hyn yn helpu gyda'r gost ac mae yna fuddion treth sydd yn ei wneud yn atyniadol a fforddiadwy iawn.

Ar ôl beicio mae'n bwysig rhoi tanwydd nôl yn y tanc a gyda hynny gallwch fwynhau diod a thamaid mewn tafarn neu gaffi lleol heb deimlo unrhyw euogrwydd... iechyd da! Felly, os nad yn barod, ewch amdani a gwnewch y mwyaf o beth sydd gyda'r fro i gynnig ar eich beic!

Gerwyn Jones



Sialens Gerdded Ceredigion

Oes gennych chi ddiddordeb i archwilio rhai o olygfeydd harddaf Ceredigion, o glogwyni gwyllt gwyntog i ddyffrynnoedd coediog cysgodol? Beth am gymryd rhan yn Sialens Gerdded newydd Ceredigion?

Mae Sialens Gerdded wedi'i chreu gan ddefnyddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus ledled Ceredigion. Bydd y teithiau cerdded hunan dywysedig hyn yn eich harwain ar draws y sir gyfan i archwilio rhai o olygfeydd harddaf Ceredigion.

Mae dros 2500km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn igam-ogamu ar draws Ceredigion. Nod y Sialens Gerdded hon yw tynnu sylw at y llwybrau sydd ar gael ledled y sir gan gynnwys llwybrau llai adnabyddus a ffyrdd gwahanol o gyrraedd safleoedd poblogaidd, gan annog pobl i fynd i gefn gwlad er budd eu hiechyd a'u lles.

Fe fydd amryw o deithiau cerdded ar draws y sir yn cael eu gyhoeddi yn wythnosol ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor sef Facebook, Twitter ac Instagram.

Gallwch ddewis rhwng sialens 10, 50 a 100 milltir.

Beth am...

- Sialens 10 milltir - Teithiau byr, llai egnïol wedi'u hanelu at deuluoedd.
- Sialens 50 milltir - Teithiau ychydig yn hirach a mwy egnïol gyda rhywfaint o dirwedd heriol.
- Sialens 100 milltir - Teithiau hirach gyda thirwedd heriol a heriau cyfeiriannu posibl.

Gall cerddwyr gael copi e-daflen o'r llwybrau i helpu i'w harwain ar eu ffordd sydd ar gael o'r Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar wefan y Cyngor. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â thref, pentref neu bentrefan ac yn dangos gwybodaeth ychwanegol megis proffil o'r llwybr, y pellter, sut wyneb sydd i'r llwybr, manau parcio cyfleus ac a oes cyfleusterau eraill wrth law.

Pa bynnag daith y dewiswch ei cherdded, cofiwch bod esgidiau cadarn yn hanfodol yn ogystal â dillad sy'n addas ar gyfer y tywydd a'ch bod yn cario dŵr yfed gyda chi. Parchwch y tir yr ydych yn ei groesi bob amser ac atgoffir y sawl sy'n defnyddio Llwybrau Hawliau Tramwy Cyhoeddus fod y llwybrau hyn yn croesi tir preifat a chadwch at y Côt Cefn Gwlad.

Mae rhagor o wybodaeth am y sialens ynghyd â'r mapiau ar gael ar y wefan www.ceredigion.gov.uk/sialensgerdded neu anfonwch e-bost at clac@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch 01545 570881 a gofynnwch am gael siarad ag aelod o dîm yr Arfordir a Chefn Gwlad.



Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576